# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 24 Medi 2015.**

**Presennol:-** Cynghorwyr Gwenfair E Davies, Dafydd Evans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, Siôn Ifans, D Gwyn Jones, John Pughe Jones, Derryck Lewis, Gwen Lloyd, S Gareth Owen, William N Owen, Ann Williams, Huw M Williams, a'r Cynghorydd Sir, Gwilym P Fychan. Hefyd y Clerc, Mr Stephen Tudor a'r Clerc Newydd, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorydd Geraint Wigley.

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod trwy egluro hon oedd cyfarfod olaf y Clerc, Mr Stephen Tudor. Diolchwyd i Stephen am ei wasanaeth ardderchog am dros un ar bymtheg o flynyddoedd gyda'r Cyngor Cymuned.

Croesawyd Mr Rab Jones i'r cyfarfod wedi iddo gael ei ethol yn Glerc newydd y Cyngor yn dilyn cyfarfod Mis Gorffennaf. Cytunodd Rab i gymeryd cofnodion o'r cyfarfod fel ei fod yn medru cychwyn ei swydd ar y 1af Hydref.

Trist oedd cofnodi marwolaeth y Cynghorydd Hugh Jones, Brynmelyn, a fu'n cynrychioli plwyf Llanwrin ar y Cyngor am dros hanner can mlynedd. Yr oedd hefyd wedi bod ar yr hen Cyngor Ardal Gwledig Machynlleth. Cydymdeimlodd y cadeirydd efo'r teulu a darllenwyd llythyr gan y Clerc roedd Hugh wedi ei anfon yn ystod ei waeledd. Traddodwyd teyrnged iddo gan Gwilym Fychan cyn bod y cynghorwyr yn codi am cyfnod o distawrwydd i dalu parch er coffadwriaeth i Hugh.
.

**33. Cofnodion cyfarfod 30 Gorffennaf 2015.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**34. Materion yn codi o'r cofnodion.**
101.1 "Defibrillator". Sharon Owen ddim wedi cysylltu. Darllenodd y Clerc e-bost gan Ms Paddy Bailey. Cytunodd Gwilym Fychan cysylltu gyda Paddy am rhagor o wybodaeth.
15.6 a 32.2 Mae ymchwiliad yn cael ei wneud i wyneb y palmant ger Fronheulog, Cemaes a'r coed sy'n gordyfu wrth y bont yng Nghwmlline.
23.2 Cafodd y Clerc sicrwydd gan reolwr y swyddfa bost ym Machynlleth fod y problemau'n cael eu datrys. Cytunwyd cadw golwg ar y sefyllfa.
31.1 Mae e-bost wedi ei anfon at gwmni'r fferm solar ym Mathafarn ond does dim ymateb hyd yn hyn. Eglurodd Cyng. D Evans fod y cwmni wedi tynnu allan erbyn hyn.
32.3 Yr ymsuddiant ar yr A470 gyferbyn a Tynrhos, Cwmlline. Mae'r asiant yn ceisio sicrhau perchnogaeth y tir trwy'r cofrestrfa'r tir.
32.5 Dim ymateb hyd yn hyn am y llwybr rhwng Llanwrin a'r Bwthyn Gwyn.
32.6 Mae mater y twll ger Pont Ifans wedi ei drosglwyddo i Gyngor Gwynedd. Cadarnhaodd Cyng. H M Williams fod y twll wedi cael ei drwsio.
32.7 Mae Cyngor Sir Powys wedi symud ymlaen i ddatrys y broblem ar y ffordd o Ffriddgate i CAT.

**35. Cynllunio.**
P/2015/0368. Melin Wynt yn Aberffrydlan. Bu'r pwyllgor cynllunio'n trafod y cais yma yn Llandrindod heddiw. Cadarnhaodd Gwilym Fychan fod y cais wedi cael ei dderbyn.
P/2015/0747. Eangu'r lle parcio ceir ger y Ganolfan Iechyd yng Nglantwymyn. Cytunwyd cefnogi.
P/2015/0836. Newidiadau i adeilad amaethyddol i fod yn dŷ preswyl ym Mhengwern, Aberangell. Dangosodd Cyng. G E Davies ddiddordeb trwy adael yr ystafell. Cytunwyd cefnogi.
TEL/2015/0017. Telecommunications yn gwneud cais i osod "base station" newydd ger Pen y Cefn, Aberangell. Cytunwyd cefnogi.
Cynllun Fferm Wynt rhwng Llanerfyl a Llanbrynmair. Penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni yw peidio datblygu'r fferm wynt yma.

**36. Eitemau i'w talu.**
36.1 BDO, yr Archwilwyr allannol:- £210-00. Cytunwyd talu.
36.2 Cyflog y clerc £750-00 a chostau £45-45 am dri mis i ddiwedd Mis Medi 2015. Cyfanswm o £795.45. Cytunwyd talu.

**37. Cais am arian.**
Trosglwyddwyd tri chais i Gronfa'r Melynau Gwynt.

**38. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
38.1 Ysgol Glantwymyn. Eglurodd Cyng. A O Griffiths fod athrawes newydd wedi cychwyn gwaith yn yr Ysgol. Gobeithir cael rhagor o disgyblion yn y dyfodol.
38.2 Cyngor Sir Powys. Cardanhaodd Gwilym Fychan fod Cyngor Sir Powys yn gorfod edrych am £27,000,000-00 o doriadau ychwanegol. Mae'r toriadau yma yn mynd i frifo ac yn mynd i effeithio ar bob agwedd o waith y Cyngor.
38.3 Fforwm Cleifion. Eglurodd Cyng. G E Davies fod pethau yn symud ymlaen gyda'r "Mid Wales Health Collaborative". Hefyd mi fydd rhagor o swyddi yn y Meddygfa yng Nglantwymyn.

**39. Gohebiaeth.**
39.1 Manylion ymgynghoriad ar 7 Hydref 2015 yn Y Plas, Machynlleth ar y cynllun i godi Pont Dyfi newydd i'r gogledd o dref Machynlleth.
39.2 Cylchgrawn Rhif 67 SARPA.
39.3 Copi er gwybodaeth o'r 9 cynnig a gyflwynir yng nghyfarfod blynyddol Un Llais Cymru ar 3 Hydref 2015. Un cynnig i'w gyflwyno yw codi'r tal aelodaeth hyd at 3% ar gyfer 2016/17.
39.4 Manylion lansio cystadleuaeth y pentref mwyaf dymunol yn Sir Drefaldwyn yn y Trallwng ar 16 Hydref 2015.
39.5 Manylion cyfarfod pwyllgor ardal Maldwyn o Un Llais Cymru i'w gynnal ar 6 Hydref 2015 yng Ngarreghofa.
39.6 Darllenwyd y Clerc darnau helaeth o lythyr gan Cyngor Tref Machynlleth i'r Adran Addysg yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i Ysgol Bro Hyddgen. Eglurodd Gwilym Fychan fod nifer o sylwadau y Cyngor Tref yn anaddas.

**40. Unrhyw fater arall.**
40.1 Cytunwyd i hysbysebu am olynydd i'r diweddar Cynghorydd Hugh Jones i gynrychioli Ward Llanwrin.
40.2 Eglurodd Cyng. D Lewis fod nifer o bobl ddim yn cyfforddus rhoi gwybodaeth i staff ar y dderbynfa yn y Meddygfa yng Nglantwymyn.
40.3 Cytunwyd ysgrifennu llythr ynglyn a phroblem y "Japanese Knotweed" ar hyd y rheilffordd ger Tynrhos, Glantwymyn.
40.4 Cytunwyd ysgrifennu llythr i'r adran priffyrdd ynglyn a goleuadau ddim yn gweithio ar y ffordd fawr yn arwain allan o Glantwymyn tuag at y Drenewydd ac hefyd gofyn am y sefyllfa diweddaraf gyda Pont Doldwymyn.
40.5 Posibilrwydd o weithredu cynllyn hydro lleol.
40.6 Cytunwyd gadael y "bank mandate" presennol mewn lle am un mis arall. Wedyn fe fydd rhaid newid y mandate i arwyddion unrhyw dau allan o bedwar o cynghorwyr yn cynnwys Paul Hughes, Gwyn Jones, Derryck Lewis a William Owen.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 29 Hydref 2015.**